

AROLYGIAETH GYNLLUNIO CYMRU

Cynllun Busnes 2020/2021



The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio



Tabl Cynnwys

1. Yr hyn rydym ni'n ei wneud
2. Yr hyn a wnaethom - 2019/20
3. Yr hyn y byddwn ni'n ei gyflawni - 2020/21

Teg	Fair
Agored	Open
Diduedd	Impartial
Amserol	Timely
4. Sut byddwn ni'n ei gyflawni

Atodiad

1. Perfformiad Disgwyliedig o ran Amseroldeb
2. Perfformiad Ariannol Disgwyliedig
3. Rhestr o Fathau o Achosion






Cynllun Busnes yr Arolygiaeth Gynllunio 2020/2021

1. YR HYN RYDYM NI'N EI WNEUD

Mae maes gweithredol yr Arolygiaeth Gynllunio yng Nghymru yn ymgymryd â'r holl waith achos cynllunio, amgylcheddol a chysylltiedig yng Nghymru, heblaw am y prosiectau seilwaith cenedlaethol mwyaf, nad yw'r cyfrifoldeb am eu prosesu a phenderfynu arnynt wedi'i ddatganoli i Lywodraeth Cymru. Mae Arolygiaeth Gynllunio Cymru yn ymdrin â rhai mathau o waith achos sy'n benodol i Gymru ac nad ydynt yn cael eu trin gan yr Arolygiaeth ehangach.



Mae tîm yr Arolygiaeth Gynllunio yng Nghymru yn cyflawni rôl allweddol wrth gefnogi nodau ac amcanion Llywodraeth Cymru o greu Cymru sydd;

- ❖ yn ffynnu ac yn ddiogel,
- ❖ yn iach ac yn egnïol,
- ❖ yn uchelgeisiol ac yn dysgu,
- ❖ yn unedig ac yn gysylltiedig.

Mae'r Cynllun Busnes hwn yn amlinellu'r hyn y byddwn yn ei gyflawni a sut y byddwn yn ei gyflawni yn 2020/2021.



2. YR HYN A WNAETHOM - 2019/2020

Cynnydd yn erbyn Nodau Cynllun Busnes 2019/20

Amlinellodd cynllun busnes y llynedd ein huchelgais i gyfuno ein hymagwedd hyblyg at brosesu gwaith achos trwy ddyrannu'r ystod lawn o waith achos mawr a gwaith achos arall ar draws un tîm. Cyflawnwyd hyn. Ein bwriad ar gyfer y dyfodol oedd cynnwys gwaith achos arbenigol ac amgylcheddol yn yr ymagwedd hon. Mae'n rhaid cofio y bydd cyflawni tîm gwaith achos hyblyg, cwbl brofiadol, ar draws yr holl fathau o achosion yn cymryd amser, ar yr un pryd â sicrhau na chollir yr arbenigedd rydym wedi'i ddatblygu yn y gwaith achos amgylcheddol mwy cymhleth. Fodd bynnag, mae camau wedi'u cymryd i'r cyfeiriad hwn.

Mae Gwaith Achos 3 ochr yn ochr â Gwaith Achos 1 a 2 bellach. Mae rhai mathau o achosion, yr ymdriniwyd â nhw'n hanesyddol gan Waith Achos 1 a 2, yn dechrau cael eu trin gan Waith Achos 3, a bwriedir i holl aelodau'r tîm ddechrau hyfforddi mewn meysydd eraill o waith achos nad ydynt wedi ymdrin â nhw'n flaenorol.

At ddibenion rheoli, mae 3 arweinydd yn parhau a chanddynt eu maes arbenigol penodol eu hunain. Maen nhw'n cyfarfod yn rheolaidd i rannu arfer gorau ac arbenigedd.

Perfformiad o ran Amseroldeb

Mae Atodiad 1 yn amlinellu ein perfformiad disgwylidig ar ddiwedd y flwyddyn yn erbyn y targedau a osodwyd i ni gan Weinidogion. Mae'r ffaith bod nifer fach o ddigwyddiadau llafar yn cael eu cynnal yn golygu ei bod yn anodd cyrraedd y targedau hyn. Mae ein perfformiad yn erbyn y targed ansawdd o safon dda o hyd, ond cydnabyddir bod lle i wella. Mae ein canllawiau gweithdrefnol i apelyddion a phartïon â buddiant yn cael eu hadolygu, gyda'r nod o egluro pob cam o'n prosesau a rhoi syniad i'r rhai sy'n ymwneud â'r system o'r hyn y gallant ei ddisgwyl.

Gwaith Achos

Yn yr haf 2019, cyhoeddodd Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig ei phenderfyniad ar Is-ddeddfau Gwialen a Lein (Eogiaid a Brithyllod y Môr) Cymru ac Is-ddeddfau Pysgota â Rhwydi (Eogiaid a Brithyllod y Môr) Cymru 2017 yn dilyn yr adroddiad a'r argymhelliad a gyflwynwyd gan ein Harolygydd. Derbyniodd yr Arolygydd a gynhaliodd yr ymchwiliad i glywed gwrthwynebiadau i gadarnhau'r is-ddeddfau lythyr diolch oddi wrth y Gweinidog yn canmol y ffordd agored, ddiuedd a theg y cynhaliwyd yr ymchwiliad, gan gyfeirio'n benodol at ei broffesiynoldeb a'i arbenigedd.

Cyflwynwyd 2 o adroddiadau ar Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (DNS) i Weinidogion Cymru benderfynu arnynt, a chyflwynwyd 8 o adroddiadau i'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) ynglŷn â cheisiadau Fforddfraint o dan y Ddeddf Trydan. Mae cais am Orchymyn o dan y Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd wedi cael ei gyflwyno, sef y cyntaf o'i fath i'w ystyried ar ôl i'r pŵer i benderfynu ar y cheisiadau hyn



gael ei ddatganoli i Weinidogion Cymru. Yn yr un modd, mae cais am Orchymyn Diwygio Harbwr wedi'i dderbyn hefyd.

Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

Cynhaliwyd digwyddiadau a fwriadwyd i gyflwyno Cynghorau Cymuned i waith yr Arolygiaeth Gynllunio ac i archwilio sut gallant ymgysylltu â'r system gynllunio'n effeithiol. Gwnaethom esbonio ein ffordd o wneud penderfyniadau ynglŷn ag apeliadau, archwiliadau o gynlluniau lleol a cheisiadau DNS, a'r materion sy'n berthnasol ac yn amherthnasol. Yna, gan weithio gyda Chymorth Cynllunio Cymru, gwnaethom hwyluso sesiynau gweithdy i drafod sut gall Cynghorau Cymuned ddefnyddio eu hadnoddau i gael y gorau i'w cymunedau.



Trafod senarios cynllunio gyda Chyngorwyr Cymuned yn Llanfair-ym-Muallt

Rhoddodd Pennaeth Gwasanaeth yr Arolygiaeth yng Nghymru gyflwyniad i aelodau pwyllgor awdurdodau lleol ar eu rôl yn y system gynllunio a gwneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth. Gwnaethom hefyd arwain sesiynau yng nghynadleddau haf a hydref y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru (RTPI Cymru) ac, yn dilyn gwahoddiad gan yr RTPI a'r Adran Seilwaith yng Ngogledd Iwerddon, gwnaethom siarad mewn digwyddiadau a fwriadwyd i'w helpu i baratoi am archwilio cynlluniau datblygu lleol am y tro cyntaf.

Rydym hefyd wedi gweithio gyda Chyfarwyddiaeth Gynllunio Llywodraeth Cymru, y Comisiynydd Lles a Chomisiynydd y Gymraeg ar wella'r system gynllunio yng Nghymru.



Annerch cynhadledd RTPI yn Belfast.

Ymgysylltiad Tîm

Mae cynnal lefel uchel o berfformiad yn erbyn targedau gweinidogol yn ddiolch, i raddau helaeth, i dîm hyblyg ac effeithlon. Mae Arolygiaeth Gynllunio Cymru yn dîm wedi'i deilwra yng Nghaerdydd, sy'n annibynnol ar Lywodraeth Cymru (LIC) ond yn cael ei ariannu ganddi. Mae'r tîm yn cynnwys 20 Arolygydd sy'n gweithio gartref a 26 aelod o staff gweinyddol proffesiynol sy'n gweithio yn y swyddfa i gynorthwyo'r Arolygwyr. Mae 4 siaradwr Cymraeg yn y tîm ar hyn o bryd ac mae unrhyw ymarfer recriwtio'n ymdrechu i gynyddu'r nifer hwn.

Rydym wedi cynnal sawl gweithgaredd i feithrin cyfathrebu a dealltwriaeth o rolau unigol yn y tîm. Ymatebodd bawb yn dda i ddiwrnod i ffwrdd i'r tîm yn Escape Rooms, a gwelwyd ei lwyddiant trwy'r gwelliant amlwg mewn cyfathrebu rhwng y rhai sydd fel arfer gartref a'r rhai sydd fel arfer yn y swyddfa.



Fe ddihangon ni!

Trefnwyd sesiwn flasu ar y Gymraeg i'r tîm dan arweiniad Prifysgol De Cymru. Mae Arolygiaeth Gynllunio Cymru yn ystyried hybu defnydd o'r Gymraeg o ddifrif, ac er bod siaradwyr Cymraeg yn y tîm, yn ogystal â'r rhai sy'n dysgu siarad Cymraeg yn annibynnol, mae sicrhau lefel sylfaenol o sgiliau ar draws y tîm cyfan yn dangos ein hymrwymiad i hyrwyddo'r iaith a gwella'r gwasanaeth a ddarparwn i'n cwsmeriaid Cymraeg eu hiaith.

Roedd y sesiwn yn llawn egni ac roedd pawb a oedd yn bresennol yn gallu cymryd rhan. Roedd llawer o weithgarwch corfforol a llawer o siarad â gwahanol bobl ar nifer o wahanol bynciau yn y Gymraeg. Bydd sesiynau eraill tebyg yn cael eu cynnal.



Sut dych chi?



Mae gan bob Gwas Sifil hawl i 5 diwrnod gwirfoddoli y flwyddyn. Gwirfoddolodd aelodau o dîm Arolygiaeth Gynllunio Cymru â'r ymddiriedolaeth gofal canser Tenovus. Mae nifer o wahanol weithgareddau y gallwch helpu Tenovus â nhw, ond fe ddewisom ni wirfoddoli yn eu warws yng Nghaerdydd. Ein tasg ni oedd prosesu stoc wedi'i dychwelyd a heb ei gwerthu, yn barod i'w rhestru ar eBay. Mae gwerthu'r eitemau hyn yn ffynhonnell bwysig o incwm i'r elusen.



3. YR HYN Y BYDDWN NI'N EI GYFLAWNI - 2020/21

Disgwylir nifer debyg o apeliadau cynllunio yn 20/21 ag a gafwyd yn y flwyddyn flaenorol, ac nid oes rheswm i gredu y bydd llawer o amrywiant y naill ffordd na'r llall. Nid ydym ychwaith yn disgwyl cynnydd mewn apeliadau gorfodi. Yn yr un modd, ni ddisgwylir i waith achos Amgylcheddol a Hawliau Tramwy newid yn sylweddol.

Yn ôl gwybodaeth a gafwyd gan ddatblygwyr, disgwylir i 4 cais DNS gael eu cyflwyno; mae'n bosibl y bydd ceisiadau DNS eraill yn cael eu cyflwyno yn ystod y flwyddyn heb ein gwybodaeth o flaen llaw neu hysbysiad o gais yn cael ei gyflwyno heb ymgysylltu â ni o flaen llaw. Disgwylir i 3 Chynllun Datblygu Lleol (CDLI) gael eu cyflwyno i'w harchwilio (Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro a Sir y Fflint). Mae ymchwiliadau'n debygol o gael eu cynnal i 3 gorchymyn prynu gorfodol yn ymwneud â chynlluniau cefnffyrdd ac mae'n bosibl y bydd cais yn cael ei gyflwyno o dan y Ddeddf Trydan hefyd. Hwn fydd y cais cyntaf o dan y Ddeddf hon i'w brosesu gan Arolygiaeth Gynllunio Cymru o dan bwerau sydd newydd gael eu datganoli i Weinidogion Cymru.

Disgwylir i ymchwiliad i Orchymyn Hawliau Tramwy mawr a chymhleth ym Merthyr Tudful agor yn yr haf 2020, a bydd yn eistedd am 10 wythnos. Ochr yn ochr â hyn, bydd cais o dan y Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd a'r Gorchymyn Diwygio Harbwr yn cael ei ystyried. Disgwylir i gais o dan Adran 36 y Ddeddf Trydan gael ei gyflwyno yn ystod y flwyddyn.





4. Sut byddwn ni'n ei gyflawni

Arolygiaeth Gynllunio ar wahân ar gyfer Cymru

Ym mis Mai 2019, cyflwynodd Julie James, sef y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, ddatganiad ysgrifenedig i'r Senedd yn amlinellu bwriad LIC i sefydlu gwasanaeth cynllunio penodol, ar wahân ar gyfer Cymru. Bydd creu sefydliad newydd yn heriol ac yn ddarn mawr o waith a fydd yn dargyfeirio pobl ac adnoddau. Er hynny, mae Arolygiaeth Gynllunio Cymru wedi ymrwmo i gynnal yr un lefel o berfformiad rhagorol yn ystod y broses o drosglwyddo i annibyniaeth, ac mae'n gweithio gyda chydweithwyr yn LIC ac Arolygiaeth Gynllunio Lloegr i sicrhau bod y sefydliad newydd ar waith erbyn mis Ebrill 2021.

Mae aelodau staff yn Arolygiaeth Gynllunio Cymru yn cael diweddariadau am gynnydd, ymgynghorir â nhw i gyd ar adegau priodol a bydd rhai yn ymwneud yn uniongyrchol mewn timau prosiect. Y nod yw y bydd y newid hwn yn cael ei wneud gyda'n staff ac nid iddynt.

Mae Arolygiaeth Gynllunio Cymru wedi ymrwmo i wneud y system gynllunio'n agored ac yn hygyrch i bawb, ac i ddarparu lefel uchel o wasanaeth cwsmeriaid. Law yn llaw â hyn yw ein cyfrifoldeb i drin â data personol cwsmeriaid mewn ffordd briodol a sicrhau bod y rhai sy'n dymuno defnyddio ein gwasanaethau yn Gymraeg yn gallu gwneud hynny.

Cydnabyddir bod angen adnoddau penodol i gefnogi'r nodau hyn. Yn yr un modd, bydd sefydlu Arolygiaeth Gynllunio ar wahân ar gyfer Cymru yn gofyn am adnoddau penodol i gefnogi a llywio amryw weithgorau'r prosiect.

Gweithio'n Hyblyg

Rydym wedi sefydlu tîm gwaith achos wedi'i gysoni, sy'n sicrhau adnodd symudol y gellir ei leoli lle y mae ei angen, pan fo'i angen, gan wella parhad y gwasanaeth i gwsmeriaid a rhanddeiliaid eraill. Bydd y broses o ehangu a datblygu gwybodaeth, arbenigedd a phrofiad yn y tîm yn parhau i gael ei sbarduno.

Mae'n debygol y bydd 9 archwiliad Cynllun Datblygu Lleol yn cael eu cynnal ar yr un pryd yn ystod y flwyddyn 2021/2022. Byddai hyn yn cael effaith fawr iawn ar y nifer gyfyngedig o Arolygwyr sydd ar gael i ni. I baratoi, rydym yn archwilio ffordd wahanol o ddefnyddio ein hadnoddau, gan gynnwys ymagwedd dîm at archwilio nifer o gynlluniau a chynyddu rôl ein swyddogion cynllunio mewn archwiliadau.



ATODIAD 1 - PERFFORMIAD DISGWYLIEDIG O RAN AMSEROLDEB

Amseroldeb	2019/20	2018/19
Penderfynu ar 90% o'r holl apeliadau cynllunio a ystyrir trwy gynrychiolaethau ysgrifenedig (rhan 1 a rhan 3 Rheoliadau 2017) ymhen 8 wythnos	100%	98.8% (116)
Penderfynu ar 85% o'r holl apeliadau cynllunio a ystyrir trwy gynrychiolaethau ysgrifenedig (rhan 4) ymhen 14 wythnos	100%	81.2% (124)
Penderfynu ar 85% o'r holl apeliadau cynllunio a ystyrir trwy wrandawiadau ymhen 21 wythnos	93.75%	93.5% (34)
Penderfynu ar 85% o'r holl apeliadau cynllunio a ystyrir trwy ymchwiliadau ymhen 29 wythnos	~	0% (1)
Penderfynu ar 85% o'r holl apeliadau gorfodi a ystyrir trwy gynrychiolaethau ysgrifenedig ymhen 27 wythnos	100%	92.3% (13)
Penderfynu ar 85% o'r holl apeliadau gorfodi a ystyrir trwy wrandawiadau ac ymchwiliadau ymhen 41 wythnos	87.5%	100% (9)
Cadw at yr amserlen a osodwyd gan LIC o ran argymhellion a roddir gan yr Arolygiaeth ynglŷn ag apeliadau a adferwyd a cheisiadau a alwyd i mewn	100%	100% (5)
Cyflwyno argymhellion ynglŷn â Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol o fewn 36 wythnos	100%	100% (3)
Darparu Arolygydd i archwilio Cynllun Datblygu ym mhob achos ar y dyddiad pan ofynnwyd gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLI)	100%	100% (2)
Cyflwyno adroddiadau Arolygwyr ar archwiliadau o Gynlluniau Datblygu yn unol â'r graddfeydd amser cytunedig	100%	50% (2)



ATODIAD 2 - PERFFORMIAD ARIANNOL DISGWYLIEDIG

	Cyllideb Wreiddiol Blwyddyn Lawn (£)	Cyfanswm Diwedd Blwyddyn Disgwyliedig (£)
Cyflogau	2,342,947	2,275,060
Teithio a Chynhaliaeth	58,500	49,562
Costau Rhedeg Nad Ydynt yn Gysylltiedig â Chyflogau	144,000	121,230
Costau Cyfreithiol y Llywodraeth	50,000	67,050
Costau Anffafriol	20,000	0
Gorbenion	601,396	601,395
Cyfanswm	3,216,842	3, 114,299
Addasiadau		
Taliadau trawsffiniol	27,000	-114,399
Taliadau Trawsffiniol Nad Ydynt yn gysylltiedig â Chyflogau	0	0
Achosion ad-daladwy	-386,770	-465,829
Derbyniadau Cyfreithiol y Llywodraeth	-2,000	-37,698
Dyraniad Cyfalaf – TG	0	0
Cyfanswm	-361,770	-617,926
Cyfanswm wedi'i Addasu	2,855,072	2,496,372



ATODIAD 3 - RHESTR O FATHAU O ACHOSION

- ❖ Apeliadau Cynllunio
- ❖ Apeliadau Gorfodi
- ❖ Apeliadau Adeilad Rhestredig
- ❖ Apeliadau Gorfodi Adeilad Rhestredig
- ❖ Apeliadau Adran 106
- ❖ Apeliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol
- ❖ Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (DNS)* (gan gynnwys cyngor cyn-ymgeisio)
- ❖ Apeliadau Barnu'n Annilyd*
- ❖ Apeliadau Trwyddedu Morol
- ❖ Apeliadau Trwyddedu Amgylcheddol (gan gynnwys Trwyddedu Cludwyr Gwastraff, Trwyddedu Tynnu Dŵr, Gorchmynion Sychder)
- ❖ Apeliadau Tir Comin
- ❖ Gorchmynion Hawliau Tramwy
- ❖ Ceisiadau ac Apeliadau Atodlen 14
- ❖ Gorchmynion y Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd
- ❖ Apeliadau Draenio Cynaliadwy*
- ❖ Adolygu penderfyniad i Restr Adeilad*
- ❖ Gorchmynion Harbwr
- ❖ Gorchmynion Prynu Gorfodol
- ❖ Hawliau Cominadwy
- ❖ Apeliadau Hysbysiad Adran 215*
- ❖ Hysbysiadau Prynu
- ❖ Apeliadau Tir Halogedig
- ❖ Apeliadau Gwastraff Peryglus
- ❖ Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai*
- ❖ Cwmpasu/Sgrinio Amgylcheddol

*Yn unigryw i Gymru